Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru
Cydbwyllgor Ymgynghorol Ystadegau Gwladol
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2018
Parc Cathays, Caerdydd

## Yn bresennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Glyn | Jones | GJ | Llywodraeth Cymru (Cadeirydd) |
| Tom | Brame | TB | Data Cymru |
| Lee | Clarke | LC | Cyngor Sir Caerdydd |
| Lee | Clarke | LC | Cyngor Sir Caerdydd |
| Daniel | Cummings | DC | Data Cymru |
| Vicki | Doyle | VD | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Owen | Hathway | OH | Chwaraeon Cymru |
| Helen | Jones | HJ | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Paul | Jones | PJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Steve | King | SK | Dinas a Sir Abertawe |
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru |
| Ann-Marie | McCafferty | AMC | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Duncan | McKenzie | DM | Data Cymru |
| Geraint | Morgan | GM | Cyngor Sir Powys |
| Jenny | Murphy | JM | Data Cymru |
| Rhys | Powell | RP | GIG Cymru |
| Meilir | Price-Owen | MPO | Cyngor Gwynedd |
| Andrew | Stephens | AS | Data Cymru |
| Alison | Vaughan | AV | Cyngor Sir Ceredigion |
| Andy | Wilson | AW | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Lowri | Wyn Morton | LWM | Cyngor Gwynedd |

## Cofnodwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Jac | Williams | JW | Llywodraeth Cymru |
| Chelsie | John | CJ | Llywodraeth Cymru |

## Siaradwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Don | A'Bear | DAB | Llywodraeth Cymru |
| Andy | Milne | AM | Llywodraeth Cymru |
| Steve | Hughes | SHu | Llywodraeth Cymru |
| Steph | Howarth | SHo | Llywodraeth Cymru |
| Jackie | Preston | JP | Cyngor ar Bopeth |
| Helene | Hayes | HH | Cyngor ar Bopeth |
| Elizabeth | Williams | EW | Cyngor ar Bopeth |
| Nicole | Scully | NS | Llywodraeth Cymru |
| John | Fuery | JF | Llywodraeth Cymru |
| Scott | Clifford | SCl | Llywodraeth Cymru |
| Samantha | Collins | SC | Llywodraeth Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | | |
|---|---|---|
| Martin | Jennings | Comisiwn y Cynulliad |
| Karen | Armstrong | Cyngor Sir y Fflint |
| Phillip | Barlow | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Hywel | Butts | Llywodraeth Cymru |
| Fiona | Clay-Poole | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Brett | Davis | Heddlu De Cymru |
| Janine | Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Rhys | Fidler | Data Cymru |
| Leanne | John | Dinas a Sir Abertawe |
| David | Morgan | Cyngor Sir Penfro |
| Lesley | Rees | Cyngor Sir Gâr |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** | |
| | Agorodd GJ y cyfarfod a darllenodd neges gan Jamie Thorburn sydd wedi bod yn aelod o Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru (WSLC) ers blynyddoedd ac, oherwydd ei fod yn symud ymlaen o'i rôl flaenorol, ni fydd yn parhau i gymryd rhan. Diolchodd GJ i Jamie am ei holl gyfraniadau i'r WSLC dros y blynyddoedd, a dymunodd yr aelodau'n dda iddo. Alison Vaughan fydd yn dod i'r cyfarfodydd o Gyngor Sir Ceredigion. | |
| **2** | **Nodiadau'r cyfarfod diwethaf a diweddariad ar bwyntiau gweithredu** | |
| | Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, yn amodol ar newid y geiriad yn rhan 10: Rhoi 'Rheolwyr Cyswllt y Cyfrifiad a Rheolwyr Cyswllt Cynorthwyol y Cyfrifiad' yn lle 'Swyddogion Cyswllt Cyfrifiad'.<br>• Cam Gweithredu 2: par. Grŵp Ymchwil Twristiaeth. AV a LWM wedi cytuno i gymryd camau dilynol.<br>• Cam Gweithredu 10/11: Par. Cyfrifiad: awgrymodd VD y dylid cynnwys y Cyfrifiad fel eitem reolaidd ar y rhaglen. Bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2019<br>• Cam Gweithredu 13: Gadael tan y cyfarfod nesaf | **Cam Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu'r Cyfrifiad at raglen cyfarfodydd y dyfodol** |
| **3** | **Adolygu papurau gwybodaeth** | |
| | Cylchlythyr Ystadegau Llywodraeth Cymru: Tynnwyd sylw at nifer o faterion gan gynnwys y data a fydd yn cael ei gyhoeddi gan WHCS cyn diwedd y flwyddyn, yn ogystal â chytuno ar ffordd ymlaen o ran yr amcangyfrifon o anghenion a'r galw am dai.<br><br>Rhoddodd GJ ddiweddariad byr ar lafar ynghylch y cynlluniau ar gyfer gwefan Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru ar ei newydd wedd, a gwahoddodd yr aelodau i roi gwybod a hoffent helpu i brofi'r wefan newydd.<br><br>Y diweddaraf ynghylch demograffeg: Cafwyd trafodaeth fer ynghylch yr eitem ar nifer y siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys cwestiwn am ymatebion procsi posibl ar gyfer plant. Cyfeiriwyd at neges e-bost y gellid ei chylchredeg, sef neges gan Ludi Simpson | |

| | | |
|---|---|---|
| | ynglŷn ag amcanestyniadau o’r boblogaeth mewn ardal fechan.<br><br>Y diweddaraf ynghylch Data Cymru: Cyflwynwyd aelodau newydd o Data Cymru, TB a DC. Trafodwyd cynnwys y Digwyddiad Hysbysrwydd Cenedlaethol a fydd yn cael ei gynnal ar 22 Tachwedd, a bydd yn canolbwyntio ar ddata a hysbysrwydd am lesiant.<br><br>Arolwg Cenedlaethol ac Amodau Tai: Dim sylwadau ar y diweddariad hwn. | |
| **4** | **Cyngor ar Bopeth - beth all ein data ddweud wrthych chi** | |
| | Cafwyd cyflwyniad gan JP, HH ac EW (Cyngor ar Bopeth) ynghylch y data a gasglwyd ac sydd ar gael gan Gyngor ar Bopeth. Roedd yn cynnwys dangosfyrddau o ystadegau am weithgareddau, y math o gyngor y gofynnir amdano a'r cymorth a roddir i gleientiaid. Maen nhw hefyd yn cofnodi rhywfaint o wybodaeth ddemograffig am gleientiaid sy'n gofyn am gyngor, er bod y data sydd ar gael yn ddienw. Gofynnodd yr Aelodau sut y gallen nhw gael mynediad at wybodaeth ar lefel fwy lleol ac fe’u cynghorwyd i gysylltu â'u swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol. | |
| **5** | **Diweddariad Llesiant Cymru** | |
| | Rhoddodd GJ ddiweddariad ar adroddiad Llesiant Cymru 2018 a gyhoeddwyd ym mis Medi. Nododd yr adroddiad ychwanegol newydd “Beth ydym ni’n ei wybod am lesiant plant?” a chyfeiriodd at beth o'r wybodaeth newydd am lesiant plant sydd wedi’i gynnwys ynddo. Mae'n debygol y bydd ymgynghoriad yn ymwneud â gosod Cerrig Milltir Cenedlaethol ddiwedd yr hydref. Nodwyd y byddai nifer o weithdai yn y Digwyddiad Hysbysrwydd Cenedlaethol yn ymwneud â llesiant, dangosyddion cenedlaethol a gwaith tueddiadau’r dyfodol. Nododd rhai o’r aelodau y gwaith a oedd yn cael ei wneud ynghylch y dyfodol e.e. Gwent ac Iechyd Cyhoeddus Cymru | **Cam Gweithredu: Gwahodd VD i roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf WSLC ar waith Gwent yn y dyfodol a’r defnydd o Fynegai Llefydd Llewyrchus** |
| **6** | **Dangosfyrddau Damweiniau Ffyrdd a Phrentisiaethau** | |
| | Rhoddodd NS a JF (Llywodraeth Cymru) gyflwyniad byr ynghylch dau ddangosfwrdd rhyngweithiol sydd newydd gael eu datblygu:<br>- Damweiniau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu; a<br>- Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd<br>Mae'r ddau ohonynt yn cael eu diweddaru bob chwarter â’r nod o gynnig mynediad gwell i ddefnyddwyr at y data diweddaraf. | |
| **7** | **Rhannu Gwybodaeth** | |
| | Gweler Unrhyw Fater Arall | |
| **8** | **Ymgynghoriad ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)** | |
| | Cyflwyniad gan SCl a SC ar yr elfennau allweddol a fydd yn cael eu cynnwys mewn ymgynghoriad ffurfiol ar y dangosyddion arfaethedig ar gyfer y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru nesaf, a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd mis Hydref. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cyfrannu at y dangosyddion a ddefnyddir ar gyfer y MALIC nesaf a fydd yn cael ei gyhoeddi tua diwedd 2019. | **Cam Gweithredu: Tîm MALIC i gynghori aelodau WSLC pan gyhoeddir yr ymgynghoriad** |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwnaed rhai sylwadau ar ychydig o'r cynigion penodol (e.e. ymddygiad gwrthgymdeithasol, mynediad i fannau gwyrdd, asesiad dechreuol o ddisgyblion a phwysoli parthau). Cynhelir nifer o Weminarau yn ystod y cyfnod ymgynghori. | |
| **9** | **Ystadegau addysg a newidiadau i'r ffordd y cyhoeddir data perfformiad ysgolion** | |
| | Rhoddodd DAB, Shu, SHo ac AM gyflwyniad ar yr ystod o wybodaeth ystadegol ar gyfer Cymru sydd ar gael ynghylch:<br>• Addysg Uwch<br>• Addysg bellach ôl-16<br>• Ystadegau Ysgol<br>gyda chyfeiriad at ddatblygiadau newydd a'r rhesymau y tu ôl i rai o'r newidiadau diweddar. Mae cryn dipyn o ddiddordeb yn y data addysg, ac ymatebodd y cyflwynwyr i nifer o ymholiadau gan gynnwys rhai am argaeledd data nad yw'n cael ei gyhoeddi'n rhagweithiol; gellir rhannu data HESA a roddir i LIC gydag ALlau, gellir gofyn am ddata ysgolion nad yw'n cael ei gyhoeddi'n rhagweithiol. | |
| **10** | **Unrhyw Fater Arall** | |
| | Cafwyd trafodaeth am gytundeb consortiwm ar gyfer data CACI Paycheck. Gall Data Cymru gefnogi'r trafodaethau.<br><br>Adroddodd RP fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi Offeryn Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd yn ddiweddar. Erbyn hyn y bwriad yw cyhoeddi'r data Dangosyddion Ysbytai ym mis Mawrth 2019. | **Cam Gweithredu: Data Cymru i gysylltu â'r ALlau ynghylch defnyddio data Paycheck a threfniadau consortiwm** |
| | | |

| Rhif | Crynodeb o'r Camau Gweithredu | |
|---|---|---|
| 1. | **Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu'r Cyfrifiad at raglen cyfarfodydd y dyfodol** | **Ysgrifenyddiaeth** |
| 2. | **Gwahodd VD i roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf WSLC ar waith Gwent yn y dyfodol a'r defnydd o Fynegai Llefydd Llewyrchus** | **Ysgrifenyddiaeth** |
| 3. | **Tîm MALIC i gynghori aelodau WSLC pan gyhoeddir yr ymgynghoriad** | **Tîm MALIC** |
| 4. | **Data Cymru i gysylltu â'r ALlau ynghylch defnyddio data Paycheck a threfniadau consortiwm** | **Data Cymru** |